
# Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol

**Mae Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol yn brosiectau seilwaith sy'n arwyddocaol o ran graddfa neu effaith ar lefel genedlaethol ac sy'n cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Gall Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol gael effaith ar amwynder cymunedol, yr amgylchedd a darpariaethau swyddi lleol. Maent yn ymwneud yn bennaf â seilwaith ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff. Ceir ychydig o enghreifftiau isod o Brosiectau Seilwaith Arwyddocaol posibl.**




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Seilwaith Trydan

### Ffermydd Gwynt

1 3 Adeiladu, ymestyn neu addasu **ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr** yng Nghymru sydd â chapasiti cynhyrchu o **50 megawat** o leiaf.

### Gorsafoedd Cynhyrchu

2 Unrhyw gynlluniau cynhyrchu trydan sy'n cynhyrchu rhwng **50-350 megawat.**

4 6 Gallai hyn gynnwys **ffermydd solar, gorsafoedd pŵer niwclear**, a **chynlluniau ynni morol** fel **gorsafoedd ynni'r llanw**.

### Llinellau Pŵer

8 Gosod **llinellau pŵer uwchlaw'r ddaear** yng Nghymru sy'n **2km** o hyd o leiaf ac sy'n gysylltiedig ag adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf gynhyrchu.

## Cyfleusterau Harbwr

### Harbwr Masnachol

5 Adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr masnachol ar raddfa fawr sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru neu Ardal Forol Cymru sy'n ymdrin â llongau a llawer o gargo.

## Priffyrdd

### Ffyrdd / Priffyrdd Newydd

7 Cynlluniau priffyrdd sy'n **fwy nag 1km o hyd**, neu unrhyw addasiad / gwelliant i briffordd sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

OGL ©Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53746